

Adeiledd a bondio

Mae datrys diffiniadau yn ffordd hwyliog o brofi a chyfnerthu dealltwriaeth y dysgwyr o'r termau allweddol a'r diffiniadau. Dywedwch wrth y dysgwyr roi'r diffiniadau o dermau allweddol at ei gilydd ac wedyn defnyddio eu dealltwriaeth o'r termau i gwblhau brawddegau. Mae'r atebion ar gael isod ac maent yn cael eu darparu ar ffurf sleidiau hefyd. Fel y modelau Frayer cysylltiedig, mae datrys diffiniadau yn ymchwilio i ddealltwriaeth y dysgwyr ac yn targedu'r termau anoddach yn y rhestr o dermau allweddol.

Syniadau ar gyfer addasu

Integreiddiwch sgiliau siarad a gwrando yn y gweithgaredd hwn:

- Argraffwch y grid datrys diffiniadau a thorri o amgylch y blychau unigol. Gofynnwch i'r dysgwyr gymryd blwch yr un a threfnu eu hunain – fel dosbarth neu grŵp – i greu'r gwahanol ddiffiniadau. Pan fydd pawb yn barod, gofynnwch i bob dysgwr ddarllen ei ran ei hun o'r diffiniad yn ei dro.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y sleid cwblhau'r cysylltiad yn llawn.
- Fel addasiad cyflymach o'r dasg, ystyriwch gynnal gweithgaredd 'meddwl, paru, rhannu' lle mae'r dysgwyr yn trafod ac yn penderfynu ar y diffiniadau cywir mewn paru neu grwpiau bach.

Rhowch fwy o gymorth drwy gysylltu'r term yng ngholofn A â'r cofnod cywir yng ngholofn B ac efallai'r cofnod yng ngholofn B â'r cofnod cywir yng ngholofn C, ar gyfer yr ychydig dermau allweddol cyntaf yn y grid.

Darllenwch fwy am yr adnoddau datrys diffiniadau a'u defnydd: rsc.li/3Gda32t

Atebion

Darperir yr atebion hefyd ar y sleidiau PowerPoint cysylltiedig.

Atebion Datrys diffiniadau

Mae **bond ïonig** yn rym atyniad electrostatig rhwng ïonau â gwefr ddirgroes mewn dellten reolaidd sy'n ffurfio rhwng metel ac anfetel.

Mae **bond cofalent** yn fath o fond sy'n cael ei ffurfio gan atomau sy'n rhannu o leiaf un pâr o electronau.

Mae **bond metelig** yn rym atyniad electrostatig rhwng electronau dadleoledig a'r ïonau positif mewn dellten reolaidd.

Mae **elfen** yn sylwedd pur sydd wedi ei wneud o un math o atom yn unig.

Mae **cyfansoddyn** yn sylwedd pur wedi ei wneud o ddwy neu ragor o wahanol elfennau y mae bondiau cemegol yn cysylltu eu hatomau; mae'r atomau mewn cymhareb sefydlog.

Atom yw'r gronyn lleiaf posibl o elfen; mae atomau wedi eu gwneud o brotonau, niwtronau ac electronau.

Moleciwl yw dau atom neu ragor wedi eu cysylltu gan fondiau cemegol.

Grymoedd **rhyngfoleciwlaidd** yw'r grymoedd atynnu a gwrthyrru cymharol wan rhwng moleciwlau.

Atebion Cwblhau'r cysylltiad

Dylai'r dysgwyr ddewis rhes C fel y cysylltiadau cywir ar gyfer y frawddeg.

C	o ganlyniad	Ar y llaw arall	gan fod
----------	-------------	-----------------	---------

Brawddegau wedi eu cwblhau:

Pan fydd metel ac anfetel yn adweithio, mae'r metel yn colli un neu fwy o electronau ac **o ganlyniad**, mae'n troi'n ïon â gwefr positif. **Ar y llaw arall**, mae'r anfetel yn ennill un neu fwy o electronau i fod yn ïon â gwefr negatif. Mae bond ïonig yn cael ei ffurfio **gan fod** yr ïonau sydd â gwefr ddirgroes yn cael eu dal at ei gilydd gan atyniad electrostatig.

Adnoddau cymorth eraill ar gyfer termau allweddol

Mae'r adnodd hwn yn rhan o'r cymorth termau allweddol ar gyfer pwnc **adeiledd a bondio**. Mae'r adnoddau cysylltiedig canlynol ar gael yn rsc.li/496HPSP:

- rhestr o dermau allweddol – geirfa wedi ei dewis yn ofalus, gyda diffiniadau. Bydd y dysgwyr yn dod ar draws y termau wrth astudio'r pwnc hwn yn y cyfnod allweddol hwn
- geirfa hygyrch – mae'n defnyddio diagramau, enghreifftiau, canllawiau ynganu a mwy i bontio'r bwlch rhwng termau allweddol a diffiniadau
- Modelau Frayer – ffordd i'r dysgwyr drefnu eu dealltwriaeth o eirfa newydd drwy weithio drwy bedwar pedrant cysyniadol gyda'r termau allweddol: archwilio, dadansoddi, egluro, cyfnerthu.